’YDYCH CHI’N CYDNABOD AWDURDOD BRENHINOL JEHOFAH YN EICH BYWYD PERSONOL?

Nodyn i’r siaradwr:
Eglurwch pam mai Jehofah yw’r Arglwydd Frenin cyfreithlon, fel y mae’n arfer ei frenhiniaeth yn gariadlon, a’r budd a lles sy’n dod wrth ymostwng i’w awdurdod brenhinol

JEHOFAH YW ARGLWYDD FRENIN CYFREITHLON Y BYDYSAWD (5 mun.)

Ef yw’r goruchaf yn ei deyrnasu a Ffynhonnell sylfaenol pob awdurdod a grym (Salmau 145:13; *it*-2 1008)

Y greadigaeth gyflawn yn ddibynnol arno fel Creawdwr a’r unig wir Dduw (Act 17:28; Dat 4:11)

Ef yn unig sydd heb ei greu, heb ddechreuad na diwedd iddo (Job 36:26; Dat 10:6)

Rhaid cydnabod Jehofah yn Arglwydd Frenin a’i Benarglwyddiaeth yn Hollalluog (1Cron 29:11; Dat 15:3)

SUT HERIWYD AWDURDOD BRENHINOL JEHOFAH (8 mun.)

Bu awdurdod brenhinol Jehofah yn ddi-her tan ar ôl creu dyn a gwraig

Y pryd hwnnw gwelodd ysbryd greadur i Dduw gyfle i ymosod ar awdurdod brenhinol Duw a cheisio sefydlu awdurdod brenhinol i gystadlu ag ef

Yng Ngardd Eden fe weithredodd Jehofah ei awdurdod brenhinol yn gariadus

Creodd ddyn ar Ei ddelw, i adlewyrchu Ei nodweddion a’i bersonoliaeth (1Cor 11:7)

Rhoddodd aseiniad i ddyn mewn harmoni â’i allu (Gen 1:26-28)

Byddai dyn wedi bod yn hapus yn gweithredu a byw yn unol ag ewyllys Duw (Salmau 128:1; 144:15b)

Gweithredodd yr unig waharddiad fel prawf ufudd-dod i awdurdod brenhinol Duw, y byddai Adda yn ei arddangos drwy ymwrthod â bwyta o ‘bren gwybodaeth da a drwg’ (Gen 2:16, 17; *it*-2 1011)

Prawf rhesymol; dim tadogi cymhellion drwg, amhriodol ar Adda; dim gorfodi caledi

Dim ond Duw sydd â’r hawl i benderfynu ar yr hyn sydd dda a drwg a rôl ei greadigaeth (Eseia 29:16)

Heriodd Satan iawnder awdurdod brenhinol Jehofah (Gen 3:1-5)

Ni heriwyd *ffaith* uchafiaeth ac awdurdod brenhinol Duw, gan na all neb fynd â’i awdurdod goruchaf a’i rym ymaith

Herio iawnder a chyfiawnder awdurdod brenhinol Jehofah a wnaed, a arferid nhw mewn ffordd deilwng gyda buddiannau gorau’r deiliaid mewn golwg

Achosodd Satan ymryson ynglŷn â hawl Duw i benderfynu da a drwg

Ymosododd ar eirwiredd a daioni Duw, gan ddweud, “fe ŵyr Duw”

Yn gelwyddog honnodd mai goleuedigaeth, nid angau, fyddai canlyniad bwyta’r ffrwyth gwaharddedig

Fe enllibiodd weision Duw hefyd ynglŷn â’u huniondeb i awdurdod brenhinol Jehofah (Job 2:3-5)

PAM MAE DUW WEDI CANIATÁU AMSER I DORRI’R DDADL (10 mun.)

Nid yw Jehofah yn ansicr ynglŷn â chyfiawnder ei awdurdod brenhinol, ac nid oes rhaid iddo brofi dim iddo’i hun

Nid herio gallu Duw, y gellid bod wedi ei arddangos drwy ddifa Satan ar unwaith, wnaeth Satan

Cymerodd Satan degwch Duw yn ganiataol, gan dybio y byddai Duw yn rhwym o ganiatáu iddo fyw petai’n profi’i gyhuddiad ynglŷn ag anffyddlondeb creaduriaid Duw

Testun dadl moesol oedd hyn

Mae Duw yn rhoi cyfle a braint i ddynoliaeth i brofi mai un celwyddog yw’r Diafol ac i dynnu ymaith yr enllib oddi wrth enw Duw a’u henw eu hunain

Wrth ganiatáu i Satan ddefnyddio pob dull posib’ i brofi ei gyhuddiad, sicrhaodd Duw y torrid y ddadl unwaith ac am byth

Trwy wrthsefyll drygioni, mae’r rhai sy’n cydnabod awdurdod brenhinol Jehofah ac yn ei wasanaethu’n ffyddlon yn medru profi mai ffug yw honiadau Satan (Diar 27:11)

Rhydd amynedd Duw gyfle i bechaduriaid ymwrthod â chwrs anghywir, ildio’n fodlon dan deyrnasu cyfiawn Duw, a phrofi eu cariad a’u hymroddiad i Dduw (Rhuf 9:22-26; 2Pedr 3:9; *rs* 429-30)

’Roedd y testun dadl hefyd yn ymwneud â chreaduriaid nefol Duw, hyd yn oed ei unig anedig Fab, oedd bob amser yn bodloni’i Dad

Pan anfonwyd Iesu ar aseiniad i’r ddaear, fe brofodd mewn ffordd gwbl berffaith mai un celwyddog yw’r Diafol (In 14:30; 16:33; *it*-2 1012)

Yn y pen draw bydd Iesu’n dileu pob tywysogaeth, awdurdod, a gallu sy’n sefyll yn erbyn awdurdod brenhinol Jehofah (1Cor 15:24-28)

SUT MEDRWN NI FEL UNIGOLION DDANGOS EIN BOD YN CYDNABOD AWDURDOD BRENHINOL JEHOFAH (17 mun.)

Astudiwch Air Duw, y Beibl, yn ddiwyd, a cheisio ufuddhau i’w ewyllys wrth gyfeillachu â gwir Gristnogion eraill (Seff 2:2, 3)

Osgowch falchder di-synnwyr ac ysbryd annibyniaeth (*it*-2 681)

Caniatéwch i Dduw benderfynu'r hyn sy'n dda neu ddrwg inni; osgown osod ein safonau ein hun

Ieuenctid, ymladdwch yn erbyn eisiau bod yn annibynnol ar rieni neu eraill mewn awdurdod (Eff 6:1-3)

Wragedd, ymladdwch yn erbyn eisiau bod yn annibynnol ar eich gwŷr; rhowch barch, cydweithrediad (Eff 5:22, 23; *fl* 54-69)

Wŷr, dilynwch gyngor y Beibl yn Effesiaid 5:25 a 1 Pedr 3:7 (*fl* 40-53)

Rhowch barch i weision penodedig Jehofah, gan gynnwys "y gwas ffyddlon a chall" a henuriaid yn y gynulleidfa (Mth 24:45)

[Cyferbyniwch Hebreaid 13:7, 17 gyda'r hanes yn Numeri 12; pwysleisiwch mai gwas Duw oedd Moses]

Osgowch ddylanwad y byd sydd dan arglwyddiaeth Satan (Eff 2:2, 3)

Byddwch ar eich gwyliadwriaeth rhag nodweddion ysbryd y byd (*rs* 390-3)

Meithrinwch y cymhellion cywir fel y byddwch yn ufuddhau i Jehofah bob amser

Dilynwch esiamplau Noa, Sara, Moses, Joseff, Job (*uw,* pennod 6)

Er mai pechaduriaid ydym ac na fedrwn weithredu mewn modd perffaith, rhaid inni awyddu i fod yn ddibynnol ar Dduw ac i wneud penderfyniadau yn unol â'i ewyllys ef

'Wnawn ni ddilyn llais Duw ac esiampl Iesu? (Diar 3:5; 1Pedr 2:21)

BENDITHION Y DYFODOL I'R RHAI SY'N CYDNABOD AWDURDOD BRENHINOL JEHOFAH (5 mun.)

Dyma'r amser i wneud safiad dros awdurdod brenhinol Jehofah (*w*91 3/1 7)

Fe fydd y rhai sy'n gwneud hynny oherwydd eu cariad at Jehofah a'u gwerthfawrogiad ohono ac o'u hawydd i'w wasanaethu yn cael eu rhyddhau yn "blant Duw" (Rhuf 8:21, 22; *w*87 1/1 24, 26, 28)

'Dyw ein gwasanaeth iddo ddim yn feichus (1In 5:3)

Y rheiny sy'n profi eu bod nhw am fod yn ddibynnol ar Jehofah fydd yn ffurfio cnewyllyn y "ddaear newydd" (2Pedr 3:13; *sl* 324-5)

Fe fydd teyrnasu Teyrnas Dduw yn dadwneud yr holl ddifrod a wnaed gan Satan (Dan 2:44)

Yng ngofal Duw, dileir atgofion poenus hyd yn oed (Eseia 14:7; 65:17, 18; *dg* 27-8)

Penderfynir a enillwn fywyd tragwyddol ar sail aros yn ddibynnol ar Jehofah neu beidio (Dat 20:12, 15)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)